




COED Gwarchodfa Natur Leol PWLLYCROCHAN WOODS Local Nature Reserve



Nodiadau Canllaw i
Athrawon ar y
Taith Darganfyddiad

Defnyddiwch y nodiadau hyn fel cymorth i gyflwyno'r *Taith Darganfyddiad* coetir. Mae yna ddigon o wybodaeth ddefnyddiol yn y ddogfen gwybodaeth gefndir hefyd.



-1-

- Roedd Stad Pwllcrochan yn eiddo i'r Arglwydd ac Arglwyddes Erskine o 1821. Adeiladwyd y plasty sydd bellach yn ysgol Rydal Penrhos ac ychwanegwyd at y coetir, gan blannu coed a llwyni egsotig. Roeddent yn cadw adar hela fel grugiar a soffleir ac roedd ganddynt lond llaw o ddynion i ofalu am y stad. Heddiw, mae'r coetir yn cael ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i hyrwyddo defnydd y cyhoedd ac i gadw ac annog bioamrywiaeth gyfoethog.
- Mae coetir hynafol yn cyfeirio at goetiroedd sydd wedi bodoli'n barhaus ers o leiaf y 1600au, ymhell cyn i dref Bae Colwyn fodoli. Mae'n bwysig gan y gall ddarparu'r unig gynefin i lawer o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'n adnodd unigryw felly mae angen ei ddiogelu.

-2-

- Ceisiwch gael y grŵp i eistedd mor dawel â phosibl gan y bydd yna fwy o siawns o weld mwy o fywyd gwylt.
- Efallai y byddwch yn gweld neu'n clywed: ceir, tai, coed, giwilerod, adar, pobl
- Y goeden fytholwyrdd sy'n tyfu yma yw'r pinwydden yr Alban. Mae eu dail fel siâp nodwydd i atal colli dŵr. Mae planhigion bytholwyrdd fel arfer yn byw mewn lleoedd sych ac oer iawn, er enghraifft, yn uchel i fyny yn y mynyddoedd, felly mae'n bwysig eu bod yn arbed dŵr. Mae'r dail hefyd yn wydn ac yn wyraidd iawn felly ni all anifeiliaid sy'n bwyta dail yn gyffredinol eu bwyta.



- Mae 18 o rywogaethau ystlumod yn y DU, a 12 o rywogaethau sy'n bridio yng Nghymru.
- Y rhywogaethau ystlumod y gellir eu gweld yma yw'r ystlum lleiaf a'r daubenton cyffredin. Mae holl rywogaethau ystlumod yn y DU wedi eu gwarchod gan y gyfraith.
- Ystlum Cyffredin Lleiaf - mae un o'r rhywogaethau mwyaf cyffredin yn y DU, ystlum bach, sy'n byw mewn ystod eang o gynefinoedd (tir fferm, coetir, maestrefi, trefi), yn clwydo mewn adeiladau. Amcangyfrifir bod 2,430,000 unigolyn yn y DU. Yn pwyso tua 5 gram (llai na darn £1). Gall un ystlum cyffredin fwyta 3,000 o bryfed mân mewn dim ond un noson!
- Ystlum Mawr- Er ei fod yn un o ystlumod mwyaf y DU, mae'n dal i fod yn llai na chledr eich llaw. Mae'n hedfan yn uchel iawn a chyflym. Mae'n byw mewn coed yn bennaf, yn aml yn clwydo mewn tyllau cnocell y coed neu dyllau pydredd mewn boncyffion a changhennau. Amcangyfrifir bod 50,000 unigolyn yn y DU gyda 4,750 ohonynt yng Nghymru.
- Mae gan wahanol rywogaethau coed ganopïau dail amrywiol oherwydd eu dwysedd a'u trwch. Yma, mae'r coed yn cynnig cysgod trwchus oherwydd y canopi trwchus. Mae coed mwy aeddfed yn aml yn cynnig canopi mwy dwys gan fod ganddynt fwy o arwynebedd. Mae siâp dail hefyd yn bwysig gan y bydd ffawydd, er enghraifft yn gadael llai o olau trwodd na'r dail cyfansawdd (dail sy'n cynnwys nifer o ddail bach) o goeden onnen.



- Mae gan bob rhan o'r blodyn swyddogaeth bwysig yng nghylch bywyd y planhigyn
 - brigeryn- rhan gwrywaidd y blodyn, sy'n gwneud paill, powdr melyn mân sydd ei angen i wneud planhigyn newydd
 - petalau- lliwgar i ddenu pryfed, sydd yna'n casglu paill ac yn ei gario at y blodyn nesaf maent yn mynd ato
 - stigma- rhan benywaidd y blodyn, mae'r paill yn cyrraedd yma yn ystod peilliad
 - gwreiddiau- yn amsugno dŵr a maetholion o'r pridd, ac yn gweithredu fel pwynt angori
 - coesyn - cludo dŵr a maetholion i wahanol rannau o'r planhigyn
 - dail- yn defnyddio golau o'r haul a charbon deuocsid o'r aer i wneud bwyd ar gyfer y planhigyn (ffotosynthesis)
- Mae faint o olau sy'n cyrraedd y ddaear yma wedi cynyddu wrth i waith teneuo coed gael ei wneud. Mae ardaloedd trwchus o goetir wedi cael eu clirio er mwyn annog twf blodau, gweiriau a choed ifanc. Mae hyn yn darparu cynefin ychydig yn wahanol i anifeiliaid fel ieir bach yr haf i ffynnu. Mae hefyd yn darparu strwythur oedran cymysg yn y coetir.
- Efallai y byddwch yn gweld: clychau'r gog, rhedyn, gludlys, chwyn gludiog



- Mae coeden gollddail yn un sy'n bwrw dail bob hydref, ac yn tyfu yn ôl eto yn y gwanwyn. Mae'r rhan fwyaf o goed brasddeiliog yn gollddail.
- Mae llawer o goed brasddeiliog ar y llwybr. Y prif rai yw: ffawydd, onnen, masarn, criafol, derw, castanwydd melys, castanwydden y meirch, cyll.
- Mae hwn yn faes sydd â chanopi agored felly gall llawer o olau gyrraedd llawr y coetir. Mae hwn yn darparu cynefin gwahanol arall i blanhigion ac anifeiliaid.
- Mae gwasgaru hadau yn bwysig iawn i blanhigion yn cynnwys coed newydd ledaenu a thyfu. Mae planhigion wedi datblygu pob math o ffyrdd dyfeisgar i symud eu hadau o gwmpas i roi gwell siawns o wasgaru iddynt.
 - chwythir gan y gwynt- mae rhai hadau yn ysgafn iawn neu wedi datblygu adenydd bach i'w helpu i chwythu ymhellach e.e. clystyrau fel cenau cyll bedw arian sy'n malurio yn y gwynt a 'hofrenyddion' masarn.
 - bachog- mae gan hadau eraill fachau bach ac maent yn glynu eu hunain wrth ffwr anifeiliaid neu ddillad pobl ee cedwrach sydd â pheli mawr, porffor o hadau gyda bachyn hir ar y pen.
 - bwytdwy- mae rhai hadau yn lliwgar i ddenu adar ac anifeiliaid i'w bwyta. Yna mae'r hadau'n cael eu pasio allan yng ngharthion yr anifeiliaid a gallant dyfu mewn lle newydd. Mae'r carthion hefyd yn darparu maetholion gwerthfawr i'r hadau egino, ee ffrwythau mieri a'r ddraenen ddu
 - disgyrchiant - y dull symlaf o wasgaru yw disgyn oddi ar y goeden pan mae'r ffrwyth yn aeddfed ac yn disgyn i ffwrdd. Mae rhai ffrwythau yn galed felly gallant rollo cryn bellter, tra bod ffrwythau eraill yn feddal a gall dorri wrth daro'r ddaear, gan achosi i'r hadau gael eu gwasgaru. Mae rhai hadau wedyn yn teithio ymhellach trwy anifeiliaid neu ddŵr e.e. afalau.



- Mae yna nifer o ffyrdd y mae dyn wedi effeithio ar yr amgylchedd, o fewn y coetir a'r tu allan. Mae effeithiau i'w gweld yn y coetir yn cynnwys meinciau, arwyddion, biniau, stepiau a llwybrau. Ond mae yna hefyd ddylanwadu mwy cynnil megis pentyrrau cynefin ac ymylon llwybrau. Cafodd rhai o'r pethau hyn eu rhoi yn eu lle i annog pobl i fwynhau cefn gwlad ac eraill i helpu i reoli'r cynefinoedd coetir.
- Mae pobl hefyd wedi effeithio ar yr amgylchedd mewn ffordd llawer mwy - er enghraifft, trwy adeiladu'r dref a'r ffyrdd. Mae hyn yn golygu bod y bloc o goetir oedd yn ffurfio rhan o stad nawr yn cael ei wahanu i sawl adran. Dyma pam ei bod yn bwysicach fyth i warchod a chadw'r coetir presennol, fel nad yw'r bywyd gwylt yn diflannu.
- Mae yna atebion i helpu i leihau effaith negyddol o aflonyddwch dynol ar yr ardal - mae hyn yn cynnwys mynediad a llwybrau da i leihau erydiad, biniau i atal effaith sbwriel yn yr amgylchedd a gwybodaeth ac addysg am y bywyd gwylt, hanes a rheolaeth y goedwig.



- Dyma ddulliau syml iawn o amcangyfrif oedran coeden.
- Mewn gwirionedd, mae llawer o newidynnau sy'n effeithio ar dwf. Mae lleoliad y goeden yn pennu pa mor gyflym mae coeden yn tyfu. Er enghraifft, byddai coeden mewn parcdir agored yn cynyddu mewn cwmpas yn llawer cyflymach na choeden mewn coetir. Mae rhywogaethau coed hefyd yn cael effaith gan eu bod yn tyfu'n naturiol ar gyfraddau gwahanol. Mae'r tywydd yn cael effaith mawr hefyd.
- Cylchoedd twf - un cylch lliw golau + 1 cylch lliw tywyll = twf blwyddyn
- Gall lled y cylch ddweud wrthyh os oedd hinsawdd y flwyddyn honno yn dda neu'n wael ar gyfer twf coed. Mae cylch eang yn golygu llawer o dwf felly mae'n rhaid bod y tymheredd a faint o law a gafwyd wedi bod yn dda. Mae cylch tenau yn golygu fawr ddim twf felly nid oedd y tymheredd a/neu'r glawiad yn ddelfrydol.
- Gallwch hefyd chwilio am farciau neu greithiau eraill ar y pren. Efallai eu bod wedi cael eu gadael gan bryfed neu glefyd. Gall siâp y cylchoedd hefyd amrywio; gall hyn ddweud wrthyh os oedd y goeden yn gogwyddo.



-8-

- Mae Pwllcrochan yn frasddeiliog yn bennaf ac yn cynnwys mwy na 140 o rywogaethau coed, llwyni a phlanhigion eraill.
- Mae'n bwysig gallu adnabod planhigion ac anifeiliaid fel y gallwn eu rhoi mewn grwpiau â nodweddion tebyg. Rydym yn cael rhywfaint o ddealltwriaeth o'r byd naturiol ac mae'n ein galluogi i gymharu amrywiaeth rhywogaethau ar draws y byd. Gall pob gwlad gael ei enw cyffredin ei hun ar gyfer planhigion neu anifail, ond mae'r enw Lladin mewn dwy ran o dan system ddosbarthu safonol ledled y byd. Er enghraifft yr enw gwyddonol am friallu briallu yw *Primula vulgaris* a'r ffawydd yw *Fagus sylvatica*.
- Gall coed gael eu hadnabod trwy nifer o ffactorau, gan gynnwys: siâp coeden, siâp dail, rhisgl, hadau, cnau a blodau



-9-

- Mae coed marw yn darparu cynefin arall ar gyfer ffyngau, perffaieth ac infertebratau eraill sydd yn eu tro yn fwyd i lawer o adar a mamaliaid bach. Mae pentyrrau cynefin yn cael eu creu o bentyrrau o goed marw yn ystod y gwaith torri coed yn ystod misoedd y gaeaf. Mae coed marw naturiol hefyd yn cael eu gadael os nad yw'n achosi unrhyw berygl.
- Mae bwystfilod bach yn enw a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth eang o infertebratau yn ein hamgylchedd. Maent yn gallu byw mewn amrywiaeth enfawr o gynefinoedd ledled y byd, ond yn gyffredinol mae'n well ganddynt lefydd tywyll a llaith. Bydd rhai anifeiliaid bach yn bwyta bron unrhyw beth (pydru deunydd planhigion, sudd, bwystfilod bach eraill) tra bod eraill yn fwy gofalus eu dewis.
- Efallai y byddwch yn gweld: nadroedd cantroed, gwllithod a malwod (yn y dail sydd wedi syrthio ar lawr y coetir), chwilod a morgrug (maent yn gadael tyllau bach mewn dail), pryfed lludw a phryfed cop (o dan goed sy'n pydru neu gerrig), lindys gwyfynod bach a phryfed (maent yn gwneud llwybrau troellog ar ddail lle maent yn tyllu y tu mewn i'r dail a bwyta'r meinwe gwyrdd), gloynnod byw a gwenyn (ger blodau llachar) a phryfed genwair (yn y pridd llaith).



-10-

- Mae yna lawer o dasgau creadigol y gellir eu gwneud gyda thema coetir. Mae creu darn o gelf amgylcheddol yn annog plant i gael gafael ar ac archwilio'r gwahanol liwiau, gwadau a siapiau mewn natur o'u cwmpas.

Atebion

Beth yw ystyr yr enw Pwllcrochan? **Crochan yn Berwi**

1
DISCOVERY TRAIL
YRITH DARGANFYRDAID

Pa mor fawr oedd y stad yn ystod oes Fictoria? **950 o gaeau pêl-droed**

Sawl dangosydd o goedlannau hynafol sydd i'w cael ym Mhwllcrochan? **Mae dros ddeg**

2
DISCOVERY TRAIL
YRITH DARGANFYRDAID

Pa goeden fytholwyrdd sy'n cael ei haddurno ym mis Rhagfyr? **Coeden Nadolig**

Allwch chi enwi 2 greadur sy'n debygol o fyw yma?

Ystlumod a thylluanod

Dail marw	Mieri	Llwyni	Glaswellt/ Blodau	Arall
llawer	llawer	rhai	dim	

J	X	I	A	K	X	R	B	Z	Q	N	M
M	I	D	T	N	Y	D	O	L	B	A	E
Y	O	S	W	Y	E	X	B	I	D	H	N
C	C	J	M	O	O	R	H	A	U	C	C
P	E	D	U	A	X	J	R	U	T	O	A
E	N	Z	A	K	L	C	Y	O	M	R	N
R	T	M	C	Y	H	E	Y	X	C	C	T
U	W	A	U	Z	W	E	R	Z	E	Y	R
T	R	J	F	L	O	T	G	W	Q	L	O
A	E	R	E	W	T	L	F	J	H	L	E
N	D	A	K	J	E	S	F	V	T	W	D
B	E	W	D	J	S	G	Y	S	R	P	B

YSTLUM GANTROED BLODYN
MADARCH NATUR DERW PWLLYCROCHAN

4
DISCOVERY TRAIL
YRITH DARGANFYRDAID

1. Stigma
2. Briger
3. Petalau
4. Coes
5. Dail
6. Gwreiddiau

Dail marw	Mieri	Llwyni	Glaswellt/ Blodau	Arall
rhai	rhai	rhai	llawer	


Allwch chi enwi dwy goeden gollddail wahanol? **Derw, Ffawydd, Onnen, Castanwydden Felys, Coeden Gnau Ceffylau**

5
DISCOVERY TRAIL
YRITH DARGANFYRDAID

Dail marw	Mieri	Llwyni	Glaswellt/ Blodau	Arall
dim	rhai	llawer	llawer	

Lle roedd y rhan fwyaf o blanhigion yn tyfu? **A pham? O dan ganopi agored achos mae mwy o olau haul.**

DISGYRCHIANT GWYNT WEDI BACHU BWYTA



6
DISCOVERY TRAIL
YRITH DARGANFYRDAID

Enwch dri pheth a wnaed gan ddyn a allwch eu gweld sydd wedi effeithio'r amgylchedd. **Adeiladu, ffordd, tyrbeiniau, meinciau**

Pa un oedd yma gyntaf a'i Bae Colwyn neu Goedwig Pwllcrochan? **Coedwig Pwllcrochan**

7
DISCOVERY TRAIL
YRITH DARGANFYRDAID

Cylchedd= $50\text{cm} \div 1.25 = 40$ oed

Ydi eich coeden yn hŷn neu'n iau na chi? **Hŷn**

9
DISCOVERY TRAIL
YRITH DARGANFYRDAID

Pa greaduriaid bychain ydych chi'n meddwl sy'n byw yma? **Pryf genwair, pryf lludw, pryf cop, gwllithen**